OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1842 (Cy. 186)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11, Llys y Gwynt i Gyffordd 14, Madryn, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *22 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym* *29 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer–Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Gorffennaf 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11, Llys y Gwynt i Gyffordd 14, Madryn, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18.00 o'r gloch ar 28 Gorffennaf 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i’r dde na gwneud troad pedol o un gerbytffordd i’r llall drwy’r bylchau yn y llain ganol ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Gorffennaf 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26). Adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)**Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Gwahardd pob cerbyd

Y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 11, Llys y Gwynt a Chyffordd 13, Abergwyngregyn.

## ATODLEN 2

### Gwahardd troi i'r dde a throadau pedol

Y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 12, Tal-y-bont a Chyffordd 13, Abergwyngregyn.

## ATODLEN 3

### Terfynau'r cyfyngiad cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt yng nghanol trosbont Llys y Gwynt hyd at bwynt yng nghanol trosbont Madryn.

## ATODLEN 4

### Terfynau'r cyfyngiad cyflymder 10 mya

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd o bwynt sy'n 131 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 12, ynys hollti Tal-y-bont hyd at bwynt sy'n 3.2 km i'r dwyrain o Gyffordd 12, ynys hollti Tal-y-bont.

ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd o bwynt sy'n 439 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 13, ynys hollti Abergwyngregyn hyd at bwynt sy'n 2.6 km i'r dwyrain o Gyffordd 12, ynys hollti Tal-y-bont.